Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gorslas

**Heol Y Llew Du**
**Gorslas**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 7LA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gorslas

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gorslas |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 155 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 119 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 15 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 14.8% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 22.2%) | 33.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 31.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Hydref 2007 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 25/03/2014 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion addysgol arbennig’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gorslas yn gymuned hapus a chynhwysol sydd yn rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i adnabod anghenion pob unigolyn o fewn yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo fod ganddynt berthnasoedd cadarn i drafod unrhyw bryderon mewn amgylchedd diogel.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn. At ei gilydd, maent yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg a Saesneg. Gyda chefnogaeth oedolion, maent yn dechrau magu hyder i siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at amrywiaeth o grwpiau a phwyllgorau ac maent yn mwynhau rhannu syniadau o'r hyn yr hoffent ei weld wrth ddatblygu safle'r ysgol newydd.

Mae gan y mwyafrif o staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion, ond yn gyffredinol, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cael ei addasu'n barhaus wrth baratoi a chynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn sicrhau cyfleoedd addas i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd a TGCh mewn amryw gyd-destunau go-iawn. Er hyn, nid oes cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu'n estynedig ar draws y meysydd dysgu. Mae perthynas weithio gref rhwng y staff a chynorthwywyr, ac maent yn hwyluso'r dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r pennaeth ac arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer darparu addysg gyflawn wedi ei seilio ar gynnal lles y disgyblion a chydweithio tuag at y dyfodol. Maent yn canolbwyntio'n dda ar sicrhau bod pob un o'r staff yn teimlo eu bod yn rhan o dîm yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod pawb, gan gynnwys llywodraethwyr, yn deall blaenoriaethau'r ysgol ac yn gweithio gyda'i gilydd yn gefnogol. Er hyn, nid yw trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella'r ysgol yn ddigon effeithiol i adnabod eu cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella.

## Argymhellion

A1 Miniogi prosesau hunanwerthuso gan graffu ar safonau dysgwyr, a monitro a gwerthuso'r addysgu a'r dysgu yn fwy effeithiol

A2 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y meysydd dysgu

A3 Sicrhau bod gan bob aelod o staff ar draws yr ysgol ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredui fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w cyfnod a'u mannau cychwyn. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof, yn caffael gwybodaeth, dwysàu dealltwriaeth a datblygu eu medrau yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau gwrando'n fuddiol ac yn parchu cyfraniadau ei gilydd. Maent yn mwynhau canu hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd gan ehangu eu geirfa a phatrymau iaith yn fedrus. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae llawer yn datblygu eu medrau gwrando yn briodol ac yn siarad yn hyderus am eu teimladau gan ddefnyddio geirfa addas. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn trafod effaith ymarfer corff ar y galon gan ymestyn eu defnydd o'r Gymraeg yn briodol. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am eu hunain. At ei gilydd, gyda chefnogaeth gyson oedolion, maent yn dechrau magu hyder i siarad Cymraeg yn gynyddol gywir mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion meithrin a derbyn yn mwynhau gwrando ar straeon a'u hailddarllen i'w ffrindiau ac oedolion. Maent yn dechrau adnabod ac enwi ystod o seiniau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddechrau darllen geiriau syml, er enghraifft am bethau sydd i'w gweld ar lan y môr. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen gyda rhugldер a dealltwriaeth gadarn am dechnegau darllen. Maent yn datblygu eu medrau yn effeithiol i gywain gwybodaeth syml, er enghraifft am eglwys Gorslas. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar y cynnydd hwn ac yn datblygu ystod dda o dechnegau i ddod yn ddarllenwyr rhugl. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ystod o destunau priodol yn y ddwy iaith ac yn cymhwyso'u medrau darllen gan gynnwys testunau digidol yn effeithiol i gefnogi eu dysgu, er enghraifft wrth ddysgu am yr Ail Ryfel Byd.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gyson yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn creu marciau er mwyn dechrau ffurfio llythrennau ac ysgrifennu geiriau syml. Wrth i'w medrau ddatblygu, maent yn sillafu geiriau anghyfarwydd yn gynyddol gywir, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu berfau gwahanol wrth restru cyfarwyddiadau i wneud brechdan wy. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer yn datblygu eu medrau'n addas gan ddechrau amrywio geirfa a phatrymau brawddeg wrth ysgrifennu. Maent yn datblygu eu gwybodaeth berthnasol am y defnydd cywir o'r Gymraeg wrth ddilyn strwythur cyson mewn gweithgareddau rheolaidd. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol mewn ystod gyfyng o ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio geirfa ymestynnol wrth gyflwyno dadl o blaid ac yn erbyn gwisgo gwisg ysgol. At ei gilydd, nid yw llawer o ddisgyblion blynyddoedd 3 i 6 yn gwneud cynnydd digon cyson wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y meysydd dysgu.

O oedran cynnar, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemateg yn effeithiol. Maent yn adnabod rhifau hyd at ddeg ac yn defnyddio’r wybodaeth yn dda i adio a thynnu rhifau gwahanol, er enghraifft wrth chwarae gemau syml. Mae disgyblion Blwyddyn 1 yn adnabod siapiau gwahanol yn dda ac yn defnyddio eu dealltwriaeth yn effeithiol mewn gweithgareddau ysgogol yn yr ardal allanol. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn parhau i wneud cynnydd cryf. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn datblygu eu medrau mesur wrth gyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau rheolaidd ac yn cymhwyso eu medrau yn effeithiol i gyd-destunau go iawn. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o ddulliau yn gymwys i gyfrifo yn eu pennau ac ar bapur wrth ddatrys problemau. Maent yn disgrifio eu dulliau meddwl a'u rhesymu yn dda ac yn esbonio sut maent wedi dod i gasgliadau, er enghraifft wrth ddatrys problemau o’r dull mwyaf effeithiol o greu melinau gwynt fel rhan o’u gwaith ar ynni adnewyddadwy ar Fferm wynt Pentywyn.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn. Mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio teganau rhaglenadwy yn gyson wrth ddatrys problemau syml fel rhan o’u gwaith rhifedd. Mae disgyblion Blwyddyn 3 yn defnyddio rhaglen Hwb yn hyderus wrth gyfansoddi sgôr gerddoriaeth ddigidol gan amrywio’r curiad a’r rhythm yn greadigol wrth efelychu sillafau enwau anifeiliaid y fferm. Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn creu ac yn defnyddio cronfeydd data a thaenlenni’n llwyddiannus mewn amrywiaeth ysgogol o destunau dysgu. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau i ddewis a dethol data am feysydd awyr ar draws y byd gan hidlo’r canlyniadau’n fwriadus i ddewis y rhai mwyaf addas ar gyfer gwahanol ddibenion teithio.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron pob disgybl yn hapus i fynychu’r ysgol ac yn mwynhau cwmni ffrindiau ac oedolion mewn amgylchedd cynhwysol a chefnogol. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan staff, yn gwybod ble i droi os oes angen cymorth arnynt, ac yn hyderus y bydd staff yn gwrando ac yn delio'n briodol ag unrhyw bryder. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn ofalgar ac yn oddefgar tuag at ei gilydd ac oedolion yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol.

Mae llawer yn gwrando'n ofalus ar yr hyn mae eu cyfoedion a'u hathrawon yn ei ddweud ac yn ymateb i'w syniadau'n ystyriol. Maent yn cyd-chwarae'n fodlon, yn cymryd eu tro, ac yn cefnogi ei gilydd yn dda wrth chwarae gemau a chymdeithasu yn ystod amser egwyl. Mae aelodau’r llysgenhadon chwaraeon yn cefnogi disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn defnyddio’r Gymraeg yn effeithiol er mwyn cymell cyd-ddisgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ac i annog eu ffrindiau i siarad yr iaith yn gynyddol hyderus mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae’r gweithgareddau hyn yn cyfrannu’n gadarn at hyrwyddo dealltwriaeth bron bob disgybl o bwysigrwydd cadw’n iach drwy gadw’n heini, ac o bwysigrwydd  siarad Cymraeg. Mae dealltwriaeth bron bob disgybl o fwyta ac yfed yn iach, a deall effaith ymarfer corff ar eu hiechyd yn datblygu’n effeithiol. Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant ar-lein trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau TGCh cyson; er enghraifft, maent yn gwybod i beidio â rhannu eu cyfrineiriau.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu gallu i fyfyrio ar eu dysgu. Maent yn ymateb yn dda i adborth llafar oedolion i wella eu gwaith a datblygu eu medrau ymhellach. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn ymateb yn briodol i adborth llafar oedolion ac yn barod i wella eu gwaith, yn aml drwy gydweithio â phartner. Yn yr arferion gorau, maent yn ymateb i adborth ysgrifenedig athrawon yn briodol ac yn hyderus am yr hyn mae angen iddynt ei wneud er mwyn symud eu dysgu ymlaen.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos diddordeb yn y gwersi ac yn dechrau gwneud dewisiadau am yr hyn maent yn ei ddysgu fel rhan o'r themâu tymhorol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn frwdfrydig wrth ddatblygu eu medrau mewn gweithgareddau ysgogol yn y dosbarth ac yn yr ardaloedd tu allan. Maent yn cymryd tro yn synhwyrol ac yn cydweithio'n effeithiol wrth gyflawni tasgau, er enghraifft wrth iddynt adeiladu cwt ci. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn awyddus i ddysgu ac yn cyfranogi'n gyson yn y gweithgareddau. At ei gilydd, mae mwyafrif yn dangos parch at eu cyfoedion ac oedolion ac yn dyfalbarhau'n briodol ar dasgau. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn amharod i wrando am gyfnodau estynedig ac nid ydynt yn dyfalbarhau â'u gwaith heb gefnogaeth oedolyn. Nid yw lleiafrif yn dangos balchder yn eu gwaith wrth ei gyflwyno'n ddigon taclus bob tro.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau yn gydwybodol, er enghraifft drwy weithredu fel aelodau o gynghorau'r ysgol, sydd wedi eu hailsefydlu'n ddiweddar. Maent yn deall eu bod yn cynrychioli barn disgyblion eraill yng nghymuned yr ysgol ac yn ymgymryd â'r rôl hon yn gydwybodol. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor eco yn cynnal arolwg sbwriel yn y parc ac yn ysgrifennu at y cyngor lleol i ofyn am fwy o finiau sbwriel. Maent yn awyddus i gadw'r amgylchedd yn glir o sbwriel ac yn ei gasglu'n ddiogel gyda chefnogaeth oedolion. Mae'r Criw Cymraeg brwdfrydig yn dechrau hybu defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, er enghraifft drwy drefnu i'w cyfoedion gyd-ganu cân Hei Mr Urdd fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant y mudiad.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac, ar y cyfan, maent yn cynllunio gwersi sydd yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol yn gryfder. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn defnyddio rhaglen cyflwyno data yn effeithiol er mwyn dangos faint o blastig oedd ar lan y môr. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, nid oes gan yr athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn gall y disgyblion ei gyflawni. Er bod yr athrawon ar draws yr ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion weithio'n annibynnol ar dasgau penodol, nid oes digon o gyfleoedd iddynt wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u dysgu. Yn nosbarthiadau'r disgyblion hynaf, mae gorddefnydd o daflenni yn cyfyngu disgyblion i ysgrifennu'n rhydd. O ganlyniad, nid yw pob disgybl yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae arweinwyr a'r staff yn cydweithio'n briodol wrth ddatblygu eu gweledigaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon yn dechrau arbrofi wrth gynllunio

gweithgareddau dysgu o fewn y meysydd dysgu a phrofiad. Mae'r egwyddorion a'r dulliau addysgu a dysgu sylfaenol yn dechrau ymwreiddio ac yn cychwyn cyfrannu tuag at ddatblygu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr mentrus a chreadigol.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cynnwys syniadau'r disgyblion wrth ddarparu gweithgareddau o fewn themâu parod. Cyfoethogir y cwricwlwm yn effeithiol drwy ymweliadau addysgol i'r disgyblion i fannau diddorol sy'n ysgogi'r dysgu. Er enghraifft, aeth disgyblion Blwyddyn 3 ar daith i fferm er mwyn gweld y gwartheg yn cael eu godro a blasu'r llaeth fel rhan o'u thema 'ar y fferm'. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu eu medrau'n fuddiol mewn cyd-destunau go iawn.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cynnal rhediad da i'w gwersi gydag ystod o weithgareddau ysgogol. Maent yn defnyddio technegau holi amrywiol yn effeithiol er mwyn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion, er enghraifft wrth ymestyn eu medrau mathemateg wrth ddatrys problemau am effaith teithio ar yr amgylchedd. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod o adnoddau pwrpasol i ennyn diddordeb disgyblion, er enghraifft wrth ddarparu ystod o wastraff ailgylchu i greu llong sy'n arnofio. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae athrawon yn frwdfrydig wrth gyflwyno gweithgareddau ysgogol ac yn cynnal diddordeb disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymgolli'n llwyr yn eu dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau.

Mae gan yr ysgol gynlluniau cytûn sy'n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Yn ogystal, mae'r athrawon wedi dechrau defnyddio cynllun i godi safonau medrau llafar ac ysgrifenedig Cymraeg y disgyblion. Mae hyn yn cael effaith briodol ar allu llawer ohonynt i gaffael y Gymraeg ac i'w defnyddio'n gynyddol hyderus yn y dosbarth a thu hwnt. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu yn ddigon cyson ar draws y meysydd dysgu. O ganlyniad, mae hyn yn llesteirio gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n estynedig at bwrpasau gwahanol.

Mae gan staff adnabyddiaeth gadarn dda o'r disgyblion, sy'n cyfrannu at ethos cynhwysol amlwg yr ysgol. Mae athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i gefnogi disgyblion i wybod beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, mae staff yn holi'r disgyblion yn fedrus ac yn ymestyn eu dealltwriaeth yn gelfydd mewn gweithgareddau yn y dosbarth ac yn yr ardal tu allan. Ar draws yr ysgol, mae adborth ysgrifenedig athrawon yn anghyson ac nid ydynt bob tro'n darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wella eu gwaith. At ei gilydd, mae athrawon yn defnyddio trefniadau olrhain cynnydd yn briodol wrth gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.

Mae gan staff y cyfnod sylfaen wybodaeth gadarn am yr egwyddorion. Maent yn darparu ystod o weithgareddau dysgu diddorol sy'n cael eu cyflwyno mewn amgylchedd dysgu cyfoethog. Mae'r athrawon yn cyflwyno tasgau'n feistrolgar sydd â chydbwysedd da rhwng rhai sydd yn cael eu harwain gan oedolyn a rhai sy'n meithrin medrau dysgu annibynnol disgyblion. Mae'r cydweithio hynod effeithiol rhwng yr athrawon a'r cynorthwywyr yn nodwedd gref o'r ddarpariaeth. Mae hyn yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu disgyblion. Gwna'r staff ddefnydd effeithiol o adnoddau'r ysgol, gan gynnwys yr ardaloedd tu allan, yn rheolaidd, er enghraifft mewn cyfnodau 'Mentro Mas'. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y rhan fwyaf o ddisgyblion wrth iddynt ddatblygu eu medrau i gydweithio a dyfalbarhau

ar dasgau ymarferol, er enghraifft wrth i ddisgyblion gynllunio a gwneud cartref i'r 'iâr fach goch'.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n gwerthfawrogi pob dysgwr. Mae pwyslais cryf ar adnabod y plentyn fel unigolyn cyflawn yn ogystal â dod i adnabod eu teuluoedd. Caiff hyn ddylanwad cadarn wrth i staff yr ysgol gydweithio'n lwyddiannus gyda'i chymuned. Mae'r holl staff yn cyfrannu'n bwrpasol at ethos gofalgar yr ysgol. Trwy ddefnyddio amryw  dechnegau, caiff disgyblion gyfleoedd pwrpasol i fynegi eu pryderon a'u parodrwydd i ddysgu yn ystod trafodaethau boreol. Mae'r staff yn meithrin a datblygu dealltwriaeth foesol ac ysbrydol disgyblion yn effeithiol drwy gynnal gwasanaethau a gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth. Mae aelodau'r cynghorau yn trefnu gweithgareddau hwyliog i godi arian at elusennau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth gefnogi'r banc bwyd a chodi arian i blant yn y Wcráin.

Mae trefniadau olrhain a monitro cynnydd disgyblion unigol a grwpiau yn briodol. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt trwy raglenni cymorth. Mae'r rhaglenni hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Caiff hyn ei werthfawrogi gan ddisgyblion wrth iddynt fagu hyder i gymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau dysgu.

Mae'r cydlynydd ADY yn cynnal cyfarfodydd pwrpasol gydag athrawon, cynorthwywyr, disgyblion a rhieni er mwyn cynllunio a gwerthuso'r ddarpariaeth. Gyda'i gilydd, maent yn monitro cynnydd disgyblion ac yn gosod targedau pwrpasol ar gyfer gwella sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau arbenigol, er enghraifft wrth gynnig cefnogaeth emosiynol i ddisgyblion a'u teuluoedd. Mae'r ddarpariaeth yn hyrwyddo a chefnogi ymddygiad disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o'r dosbarthiadau, nid yw disgwyliadau staff yn ddigon cyson er mwyn sicrhau bod disgyblion yn dyfalbarhau à'u gwaith a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig.

Mae'r staff yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn weithgar yn ystod y diwrnod ysgol, er enghraifft wrth i'r llysgenhadon efydd hybu gemau buarth yn ystod amser egwyl. Maent yn hybu dealltwriaeth gadarn disgyblion o bwysigrwydd cadw'n iach, ac effaith ymarfer corff ar eu hiechyd. Mae staff hefyd yn annog disgyblion i wneud dewisiadau iach wrth fwyta; er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn dysgu am fwydydd iach wrth aralleirio enwau ffrwythau a llysiau i gân boblogaidd Gymraeg.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion chwarae rôl allweddol wrth iddynt wneud penderfyniadau ynglŷn â datblygiadau'r ysgol. Mae disgyblion yn ethol aelodau'r cynghorau, ac yn eu tro, mae gwaith y pwyllgorau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae'r aelodau wedi casglu syniadau eu cyfoedion wrth ddatblygu'r amgylchedd dysgu yn yr adeilad newydd, gan hyrwyddo ailddefnyddio pren i greu cafnau blodau.

Mae'r ysgol yn creu cysylltiadau cryf â'r gymuned, sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn gadarn. Er enghraifft, mae staff yn trefnu gweithgareddau rhwng y

disgyblion ac aelodau'r gymuned yn llwyddiannus fel rhan o drefniant 'clwb pontio'r pentref'. Mae'r disgyblion yn cefnogi medrau digidol aelodau'r gymuned yn fedrus, ac maent hwythau yn eu tro yn meithrin medrau datrys problemau a chydweithio disgyblion wrth chwarae gemau bwrdd. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i gyfathrebu'n gynyddol hyderus ac i ddwysàu eu dealltwriaeth o'u hunaniaeth a threftadaeth leol.

Mae'r pennaeth yn monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion mewn trefniant cadarn, gan gydweithio'n agos â rhieni ac asiantaethau allanol, fel y bo'r angen. Mae diwylliant ac ymagweddau priodol gan yr ysgol tuag at ddiogelwch a lles disgyblion ac mae trefniadau diogelu'r ysgol yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth wedi cydweithio ag ystod o bartneriaid i greu gweledigaeth bwrpasol sy'n adlewyrchu egwyddorion a thaith yr ysgol tuag at y dyfodol. Er yn ddyddiau cynnar o ran y paratoadau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru, mae arweinwyr a staff yr ysgol yn llwyddo i wireddu elfen allweddol o'r weledigaeth, sef sicrhau bod pawb yn 'gweithio gyda'i gilydd, dysgu gyda'i gilydd a thyfu gyda'i gilydd'. Mae'r pennaeth wedi sefydlu diwylliant cefnogol sy'n annog staff i gymryd rhan mewn cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae ei harweinyddiaeth yn cyfrannu'n werthfawr at sefydlu ethos tîm cryf ac ymdeimlad o berthyn ymysg y staff. Mae hyn yn sicrhau bod bron bob un yn angerddol dros yr ysgol a'i chymuned. Mae rolau a chyfrifoldebau'r staff yn glir ac mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o'u cyfraniadau tuag at sicrhau lles a diogelwch disgyblion. Mae ymwybyddiaeth arweinwyr a staff o anghenion pob disgybl yn elfen nodedig o'r ysgol.

Mae gan yr ysgol brosesau effeithiol i reoli perfformiad athrawon a chynorthwywyr sy'n seiliedig ar eu hanghenion proffesiynol unigol, blaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae arweinwyr wedi creu diwylliant cadarnhaol i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson i'r holl staff. Cânt eu hannog i ddatblygu'n broffesiynol yn barhaus trwy ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Er enghraifft, mae un o'r athrawon yn cydweithio'n fwriadus â'r awdurdod lleol i rannu arferion addysgu a dysgu effeithiol. Esiampl arall o ddatblygiad effeithiol gweithlu'r ysgol yw rôl y cynorthwywr wrth gefnogi anghenion lles emosiynol disgyblion. Mae'n rhannu gwybodaeth am raglenni cymorth gyda staff yr ysgol ac mewn ysgolion lleol er mwyn dangos arferion effeithiol. Yn ogystal â'r cyfleoedd hyfforddiant a dysgu proffesiynol, mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion clwstwr Cwm Gwendraeth. Maent yn cydweithio er mwyn cyflwyno a chysoni dulliau addysgu a dysgu i gefnogi disgyblion i ymarfer a chodi safonau'r Gymraeg yn dilyn y pandemig. Mae'r cyfleoedd buddiol hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth yr ysgol i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu dysgu mewn amgylchedd dysgu cefnogol.

At ei gilydd, nid yw trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella'r ysgol yn ddigon effeithiol er mwyn mynd i'r afael â meysydd sydd angen eu datblygu. Er bod arweinwyr wedi adnabod a gwella agweddau o'r ddarpariaeth, fel medrau llafar Cymraeg disgyblion, nid ydynt bob tro'n gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth a safonau yn ddigon manwl. Mae'r cynllun gwella ysgol diweddar yn cynnwys ystod addas o flaenoriaethau, er nad yw'r camau gweithredu bob tro'n ddigon miniog nac yn canolbwyntio'n ddigonol ar wella medrau disgyblion. Yn ogystal, nid yw adroddiadau monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn ddigon gwerthusol nac

yn amlygu’r camau nesaf yn ddigon clir. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth ddigon cadarn o sefyllfa gyfredol yr ysgol o'r hyn sydd yn dda a beth sydd angen ei wella.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cyflawni eu dyletswyddau’n  briodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gyson o drefniadau dyddiol yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi edrych ar y sefyllfa staffio wrth symud i’r ysgol newydd a sicrhau cyfleoedd i leihau baich gweinyddol y pennaeth. Mae’r corff llywodraethol hefyd yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Maent yn derbyn adroddiadau tymhorol gan y pennaeth sy’n amlygu bywyd a gwaith yr ysgol. Er hyn, nid ydynt yn herio arweinwyr yn ddigonol i gaffael gwybodaeth am gryfderau a meysydd i’w gwella sy’n ymwneud â’r dysgu ac addysgu. Nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cadarn o gynnydd a safonau'r disgyblion.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o gyllid, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, sydd yn cael effaith gadarn ar wella medrau disgyblion. Er enghraifft, maent wedi dyrannu cyllid i gynyddu oriau cynorthwywyr er mwyn cynnal rhaglenni cymorth a chefnogi disgyblion yn y dosbarthiadau.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarn â rhieni a’r gymuned ehangach. Mae rhieni’n teimlo eu bod yn gallu sgwrsio ag unrhyw aelod o staff er mwyn trafod lles ac addysg eu plant. Caiff gwybodaeth berthnasol am weithgareddau’r ysgol ei rhannu’n effeithiol gyda’r rheini drwy amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/08/2022